**EITEM AR YR AGENDA: 7**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**19 Rhagfyr 2016**

## STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2017 - 2020 A CHYLLIDEB 2017/18

## CRYNODEB

**Adroddiad gan Dawn Docx, Trysorydd am y Tro**

### Diben yr Adroddiad

1 Cyflwyno'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (SATC) ar gyfer 2017/18 i 2019/20 i'r Aelodau, sy'n cynnwys y gyllideb ddrafft ar gyfer 2017/18.

### Cefndir

2 Mae angen i sefydliad effeithiol gael nifer o gynlluniau corfforaethol yn eu lle i sicrhau bod strategaeth gyffredinol a chynlluniau gwella'r Awdurdod yn cael eu cyflawni. Mae'r SATC yn cefnogi'r cynlluniau hyn ac yn sicrhau bod adnoddau'n cael eu cyfeirio at y meysydd a flaenoriaethwyd yn y Cynllun Gwella. Mae llunio SATC yn sicrhau bod dull strategol yn cael ei ddilyn mewn perthynas â chynllunio cyllidebau a chyllid dros y tymor hirach fel bod modd rheoli unrhyw newidiadau arfaethedig dros amser i sicrhau bod y trosglwyddiad yn un esmwyth.

3 Mae'r Cynllun Gwella blynyddol yn nodi sut y mae'r Awdurdod yn bwriadu cyflawni ei gyfrifoldebau statudol ac anstatudol tuag at y bobl a wasanaethir ganddo. Caiff ei ddiweddaru bob blwyddyn mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid, ac mae'n nodi'r prif amcanion ar gyfer y flwyddyn i ddod felly mae'r ddogfen yn elfen allweddol o'r SATC.

4 Mae'r amcanion yn nodi sut y gall yr Awdurdod gynnal a gwella'r modd y mae'n darparu gwasanaethau gweithredol tra hefyd yn cydnabod bod angen cyfyngu ar y gofyniad ychwanegol ar y gyllideb oherwydd y gostyngiad parhaus yn y cyllid ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus.

5 Yr Amcanion Gwella drafft a gymeradwywyd ar gyfer 2017/18 a'r blynyddoedd wedi hynny oedd: cynnal y lefel bresennol o waith atal tanau; ailfalansio adnoddau i gyfateb i risg ar gyfer ymatebion brys; amrywio rôl y diffoddwyr tân er mwyn cynnig gwasanaeth ychwanegol i'r cyhoedd a chau'r bwlch o £2.3 miliwn a amcangyfrifir am dair blynedd yn y cyllid ar gyfer y Gwasanaeth.

6 Am y tair blynedd ariannol ddiwethaf, mae'r Awdurdod Tân ac Achub wedi gwneud arbedion o £3.5 miliwn drwy fod yn effeithiol yn cael 0.65% o leihad yn y gofyniad ar y gyllideb net, ac amsugno unrhyw godiadau megis dyfarniadau cyflog, costau ariannu cyfalaf a chwyddiant cyffredinol. Er mwyn sicrhau'r arbedion hyn, mae'r Awdurdod wedi cyflawni mewn perthynas â nifer o opsiynau a ddewiswyd gan yr Aelodau, a oedd yn cynnwys newidiadau i'r system gylchrestru; ail-strwythuro'r rheolwyr; adolygiad o ofal peiriannau cyrraedd yn uchel; staffio diogelwch tân cymunedol; a staffio gwasanaethau cefnogol. Yn gyffredinol, mae'r gweithlu wedi lleihau 9% dros y cyfnod ond, er gwaethaf y gostyngiadau hyn mae'r Awdurdod yn parhau i gyflawni'n llwyddiannus mewn perthynas â'i amcanion.

7 Cytunodd yr Aelodau ar y strategaeth ariannol i'w hargymell yn y Cynllun Gwella, sef cau'r bwlch ariannu dros y 3 blynedd nesaf. Y strategaeth y cytunwyd arni yw cynyddu'r cyfraniadau gan yr awdurdodau cyfansoddol ym mlwyddyn 1 a lleihau'r costau rhedeg erbyn blwyddyn 3. Y cynnydd arfaethedig ym mlwyddyn 1 yw £1.7m. Wedi'i gynnwys yn y cynnydd, mae'r diffyg cyllidebol ar gyfer 2016/17, sef £740k a ariannwyd o gronfeydd wrth gefn.

## Setliad Dros Dro gan Lywodraeth Cymru

8 Caiff Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ei ariannu drwy gyfraniadau gan y chwe awdurdod cyfansoddol yng Ngogledd Cymru. Daw'r cyllid i awdurdodau lleol yng Nghymru drwy'r cyllid allanol cyfun (a*ggregate external finance (AEF*)) (sy'n cynnwys y grant cynnal refeniw a'r ardrethi annomestig a ailddosbarthwyd), a

newidiadau yn refeniwiau trethi lleol. Y rhaniad cyllid ar gyfer y rhan fwyaf o awdurdodau yw 75% AEF, 25% treth gyngor. Mae hyn yn golygu y byddai angen i'r dreth gyngor gynyddu 6% am bob 2% o ostyngiad yn yr AEF er mwyn cadw'r un lefel o gyllid.

9 Cyhoeddwyd y setliadau dros dro ar gyfer yr awdurdodau lleol yng Nghymru ar 19 Hydref 2016 a dyma'r newidiadau yn y AEF ar gyfer yr awdurdodau yng Ngogledd Cymru yn 2017/18:

| Awdurdod Unedol | % Newid |
|---|---:|
| Ynys Môn | 0.3 |
| Gwynedd | 0.9 |
| Conwy | 0.4 |
| Sir Ddinbych | 0.5 |
| Sir y Fflint | 0.1 |
| Wrecsam | -0.5 |
| Newid ar Gyfartaledd | 0.28 |

10 Bydd yr Aelodau'n nodi bod Llywodraeth Cymru yn methu darparu arwydd o'r AEF y tu hwnt i 2017/2018.

11 Nid oes cap swyddogol wedi'i osod ar gynnydd yn y dreth gyngor, ond nid yw'r rhan fwyaf o awdurdodau yn mynd y tu hwnt i gap y maent yn ei osod arnynt eu hunain, sef 5%. Y cynnydd ar gyfartaledd yn awdurdodau Gogledd Cymru yn y flwyddyn flaenorol oedd 3.95%.

**Materion Gweithredol**

12 Rhoddwyd cyflwyniadau am y pwysau ariannol i Weithgor y Cynllun Gwella ac i'r Pwyllgor Archwilio rhwng Ionawr a Mehefin, a chafwyd trafodaethau helaeth ar ffyrdd o gau'r bwlch cyllido. Penderfynodd yr Aelodau beidio â lleihau gwasanaethau yn 2017/18 ond, yn hytrach, i gynllunio i leihau gwasanaethau erbyn 2019/20.

13 Mae'r Cynllun Gwella yn cynnwys amcan i edrych ar ailfalansio'r adnoddau i gyfateb i'r risg ar gyfer ymatebion brys. Bydd newidiadau i'r modd y caiff criwiau tân eu cynllunio a'u rheoli yn arwain at rai arbedion oherwydd defnyddir adnoddau'n fwy effeithlon.

14 Yr amcan cyntaf yn y Cynllun Gwella yw parhau i gadw pobl yn ddiogel rhag tân yn eu cartrefi. Er mwyn cyflawni mewn perthynas â'r amcan pwysig hwn, penderfynwyd na fyddai unrhyw ostyngiad yn y gwaith diogelwch tân cymunedol a wneir gan y Gwasanaeth.

15 Yr amcan olaf yn y Cynllun Gwella oedd chwilio am opsiynau i ehangu rôl y diffoddwyr tân er mwyn cynorthwyo rhagor yn y gymuned a lleihau'r pwysau ar wasanaethau eraill fel yr ambiwlans a gofal cymdeithasol. Wrth newid y rôl, daw rhywfaint o gostau ychwanegol ar gyfer hyfforddiant a chyfarpar a chostau sy'n gysylltiedig â'r rheoli'r swyddogaeth. Ond, fe fydd hyn yn darparu arbedion cyffredinol i'r sector cyhoeddus yn ehangach.

## Prif Ragdybiaethau'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig

16 Mae'r prif ragdybiaethau sy'n sail i'r SATC yn cynnwys:

- galwadau o ran gwasanaethau gweithredol yn seiliedig ar gynlluniau strategol y Gwasanaeth
- yr adnoddau sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru
- yr effaith ar yr awdurdodau cyfansoddol o ganlyniad i gynyddu'r cyfraniadau
- lefel y pwysau chwyddiant ar gyllidebau allweddol, megis cyflogau
- dyfodiad yr ardoll prentisiaethau
- darparu prosiectau newid trawsffurfiadol.

17 Caiff effaith chwyddiant cyffredinol ei reoli bob blwyddyn gan brosiectau sy'n ceisio lleihau defnydd a/neu arbedion effeithlonrwydd. Ond, mae yna gostau ychwanegol nad oes modd eu hosgoi ac na ellir eu rheoli am i lawr, fel dyfarniadau cyflog; mynegeio ar gytundebau lefel gwasanaeth; cynnydd mewn yswiriant a'r costau sy'n gysylltiedig â chael rhaglen gyfalaf. Dyma'r rhagdybiaethau a ddefnyddir ar gyfer y SATC lle nad yw'r union gynnydd yn hysbys ar hyn o bryd:

| Math o Wariant | 17/18 | 18/19 | 19/20 |
|---|---|---|---|
| Dyfarniad cyflog | 1% | 1% | 1% |
| Ynni | 1% | 2% | 10%* |
| Cytundebau Lefel Gwasanaeth | 3% | 3% | 3% |

* yr effaith a ragwelir o ganlyniad i'r ardoll newid hinsawdd

18 O 1 Ebrill 2017 ymlaen, mae Llywodraeth y D.U. yn cyflwyno ardoll prentisiaethau ar gyfer pob cyflogwr sydd â bil cyflogau sy'n uwch na £3 miliwn. Mae'r ardoll yn 0.5% o gyflog gros, a'r gost a amcangyfrifir ar gyfer y gwasanaeth yn 2017/18 yw £74k.

19 Mae'r costau refeniw sy'n gysylltiedig â chael rhaglen gyfalaf wedi'u cyfrifo ar sail y math o wariant ar asedau a'r cyfnod ad-dalu, ac amcangyfrif o'r llog sy'n daladwy ar y benthyciadau ychwanegol sydd eu hangen i ariannu'r rhaglen.

## Sefyllfa'r Gyllideb Sylfaenol

20 Mae'r costau ychwanegol a amcangyfrifir fel y nodir uchod wedi cael eu hychwanegu at gyllideb sylfaenol y flwyddyn flaenorol. Newidiadau gweithredol megis ailgysoni'r gyllideb ar gyfer diffoddwyr tân y system RDS er mwyn adlewyrchu'n fwy cywir faint o bobl a gyflogir, darparu hyfforddiant yn fewnol a newidiadau hysbys eraill a wnaethpwyd i'r gyllideb sylfaenol. Dyma'r sefyllfa ar ôl y newidiadau hyn:-

| Cyllideb Sylfaenol wedi'i Haddasu<br>£ miliwn | 16/17 Gwirion-eddol | 17/18 | 18/19 | 19/20 |
|---|---|---|---|---|
| Sylfaen Gwariant Net | 32.776 | 33.575 | 33.935 | 34.692 |
| Cyfraniad yr Awdurdodau Cyfansoddol | 31.886 | 33.575 | 33.524 | 33.792 |
| Diffyg Cyllidebol | 0.890 | 0 | 0.411 | 0.90 |

21 Er mwyn i'r Awdurdod weithredu'r strategaeth i ymorol am y bwlch cyllido, bydd angen iddo ganfod arbedion fel y nodir yn y tabl uchod. Heb y cynnydd arfaethedig i'r awdurdodau cyfansoddol, byddai angen cael arbedion gwerth £2.8 miliwn erbyn 2019/20.

22 Y cynnig ar hyn o bryd yw defnyddio cronfeydd wrth gefn i danategu'r gyllideb ar gyfer 2018/19, ond yn y tymor hirach bydd yn rhaid i'r Aelodau benderfynu sut i wneud yr arbedion angenrheidiol a allai effeithio ar y gwasanaethau.

## Cronfeydd wrth gefn

23 Mae’r awdurdodau tân ac achub yng Nghymru yn anarferol yn y modd mai dim ond ers 2009 y maent yn cael dal cronfeydd wrth gefn, sef ers dyfodiad ‘Gorchymyn Cynlluniau Gwasanaethau Tân ac Achub Cyfunol (Amrywio) (Cymru) 2009’. Digwyddodd y newid yn y ddeddfwriaeth i gydnabod y baich posibl ar gyllidebau cynghorau petai’r awdurdodau angen cyfraniad ychwanegol mewn rhyw flwyddyn. O 2009 ymlaen, mae defnyddio cronfeydd wrth gefn wedi bod yn rhan hollbwysig o reoli materion ariannol yr Awdurdod Tân ac Achub ac mae wedi sicrhau na fyddai angen cyfraniadau diwygiedig mewn unrhyw flwyddyn.

24 Mae rheoli a defnyddio cronfeydd gefn yn briodol yn rhan o waith rheoli a chynllunio ariannol da.

25 Gweler isod y cronfeydd refeniw defnyddadwy y mae disgwyl i’r Awdurdod Tân ac Achub eu cael ar 31 Mawrth 2017.

| Cronfa wrth gefn | Gwerth £m | Pwrpas |
|---|---|---|
| Cronfa Gyffredinol wrth gefn | 2.70 | Er mwyn lleddfu effaith digwyddiadau annisgwyl, argyfyngau a llifoedd arian anwastad. Er mwyn ymorol am gostau trosglwyddo o gynlluniau na ellid eu hariannu o’r gyllideb refeniw. Defnyddir i danategu’r gyllideb refeniw. Amcangyfrifir y bydd £537k yn cael ei ddefnyddio i danategu’r gyllideb ar gyfer 16/17. |
| Cronfa Gyfalaf | 0.40 | Defnyddir fel cyfraniad at gost gwariant cyfalaf i leihau costau ariannu cyfalaf yn y dyfodol. Defnyddir hyn yn 16/17. |
| Cronfeydd a Glustnodwyd | 0.625 | Arian a neilltuwyd ar gyfer prosiectau penodol. Mae’r prosiectau’n cynnwys cyfarpar ar gyfer archwiliadau diogelwch tân yn y cartref, costau trosglwyddo radio, a chynnydd mewn cyfraddau llog. Defnyddir y rhan fwyaf ohonynt yn 16/17. |

26 Cynigir defnyddio'r cronfeydd a glustnodwyd a'r gronfa gyfalaf ar gyfer y pwrpas y neilltuwyd. Mae'r rhain wedi eu hymgorffori yn y broses flaengynllunio, ac os na chânt eu defnyddio ar gyfer y pwrpas a neilltuwyd, byddent yn achosi i'r Awdurdod gael costau ychwanegol.

27 Amcangyfrif mai £2.16 miliwn yw gwerth y Cronfeydd wrth gefn sydd ar gael ar gyfer pwrpas cyffredinol.

28 Oherwydd yr heriau a wynebir o ran lleihau'r gyllideb sylfaenol, mae'n briodol defnyddio rhywfaint o'r cronfeydd hyn i gynorthwyo i gyflawni prosiectau newid. Ar hyn o bryd, nid yw cost y prosiectau hyn yn wybyddus ond mae'n ddoeth sicrhau bod arian ar gael os oes angen.

29 £0.760 miliwn yw'r diffyg cyllidebol ar gyfer 2016/17, ac mae'n cael ei danategu o'r cronfeydd wrth gefn. Yn ôl yr amcangyfrifon presennol, caiff £0.537 miliwn o'r gronfa a neilltuwyd ei defnyddio yn ystod y flwyddyn. Oherwydd y cronfeydd sydd ar gael, byddai'n bosibl tanategu'r gyllideb ar gyfer 2018/19 o'r cronfeydd wrth gefn.

## Cyllideb Refeniw 2017/18

30 Er mwyn sicrhau cyllideb fantoledig ar gyfer 2017/18, bydd yn rhaid i'r cyfraniadau gan yr awdurdodau cyfansoddol gynyddu £1.7 miliwn. Mae hyn yn gynnydd o 5.3% o gymharu â chyfraniadau 2016/17. Mae'r cynnydd mawr o ganlyniad i dynnu'r tanategiad o'r flwyddyn flaenorol a'r pwysau ar gyllideb ar gyfer 2017/18.

31 Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod hyn yn uwch na'r hyn roedd yr awdurdodau cyfansoddol yn ei ddisgwyl. Felly, mae'r trafodaethau'n parhau gyda swyddogion adran 151 i weld a ellir rhoi peth o'r cynnydd ar waith fesul cam dros ddwy flynedd. Fodd bynnag, os cytunir i hyn, bydd angen rhywfaint o danategiad o'r cronfeydd wrth gefn yn 2017/18.

## Y Goblygiadau Ariannol

32 Ymdrinnir â'r goblygiadau ariannol yng nghorff yr adroddiad.

## Asesiad Risg Cydraddoldeb

33 Nid yw'r SATC yn cynnwys cynigion ar gyfer lleihau costau yn 2017/18 felly nid oes angen cael asesiad effaith ar gydraddoldeb.

## Argymhelliad

34 Bod yr aelodau'n:

(i) cymeradwyo'r gyllideb ar gyfer 2017/18 ynghyd â'r cynnydd cysylltiedig yn y cyfraniadau gan yr awdurdodau cyfansoddol ac yn nodi'r strategaeth ariannol tymor canolig;

(ii) cytuno, os bydd unrhyw newidiadau cyn 15 Chwefror, fod y pwerau i addasu lefel y gyllideb yn cael eu dirprwyo i'r Trysorydd mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, y Prif Swyddog Tân a'r Clerc.